



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR

C.Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX

Dolen gyswllt: Sarah Handy (01443 424098)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod rhithwir o **PWYLLGOR CRAFFU - CYLLID A CHYFLAWNIAD** yn cael ei gynnal ar **DYDD MAWRTH, 13EG EBRILL, 2021** am **5.00 PM.**

Caiff Aelodau nad ydyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd gyfrannu yn y cyfarfod ar faterion y cyfarfod er bydd y cais yn ôl doethineb y Cadeirydd. Gofynnwn i chi roi gwybod i Wasanaethau Democrataidd erbyn Dydd Gwener, 9 Ebrill 2021 trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, gan gynnwys rhoi gwybod a fyddwch chi'n siarad Cymraeg neu Saesneg.

AGENDA

Tudalennau

CYFLEUSTER YMCHWIL A CHRAFFU

Mae modd manteisio ar y cyfleuster ymchwil a chraffu, sy'n cael ei gyflawni gan Swyddog Ymchwil a Chraffu Aelodau'r Cyngor er mwyn helpu'r Aelodau i ymgymryd â'u cyfrifoldebau o ran craffu a'u gwaith ehangach. Mae gwaith o'r fath yn atgyfnerthu rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu er mwyn sicrhau bod pynciau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu trafod. Os oes gyda chi unrhyw ymholiadau ynghylch gwaith ymchwil, e-bostiwch: Craffu@rctcbc.gov.uk

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant

sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Derbyn cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad a gafodd ei gynnal 15 Mawrth 2021.

5 - 10

3. DOLENNI YMGYNGHORI

Gwybodaeth mewn perthynas ag [ymgyngoriadau](#) perthnasol i'w hystyried gan y Pwyllgor.

4. STRATEGAETH A CHYNLLUN GWEITHREDU CYFLOGAETH A SGILIAU RHONDDA CYNON TAF 2019-2021

Derbyn diweddariad mewn perthynas â Strategaeth Cyflogaeth a Sgiliau'r Cyngor a'i Gynllun Gweithredu

11 - 30

5. TRAFOD ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYLLID A DIGIDOL.

Trafod Adroddiad Cyflawniad y Cyngor ar gyfer y Trydydd Chwarter.

31 - 112

6. ADRODDIAD STRATEGAETH GYFALAF 2021/22 AC ADRODDIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/22

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol.

113 - 150

7. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:-

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf."

8. CYNLLUN RHEOLI ASED AU CORFFORAETHOL

Derbyn cyflwyniad gan Gyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor.

151 - 172

9. ADOLYGIAD Y CADEIRYDD A DOD Â'R CYFARFOD I BEN

Adlewyrchu ar y cyfarfod a'r camau gweithredu i'w dwyn ymlaen.

10. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu

Cylchreliad:-

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Y Cynghorydd M Powell a Y Cynghorydd G Thomas
– Cadeirydd ac Is-gadeirydd, yn y drefn honno

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:

Y Cynghorydd S Bradwick, Y Cynghorydd R Yeo, Y Cynghorydd S. Rees-Owen,
Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd T Williams, Y Cynghorydd J Cullwick,
Y Cynghorydd G Caple, Y Cynghorydd A Fox, Y Cynghorydd S Evans,
Y Cynghorydd S Rees, Y Cynghorydd J Edwards and Y Cynghorydd W Owen

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S Belzak – Aelod ex officio

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol L.M.Adams a W Lewis – Cadeirydd ac Is-gadeirydd
y Pwllgor Trosolwg a Chraffu yn y drefn honno

Aelodau Cyfetholedig Addysg er gwybodaeth-

Mr A Ricketts, Cynrychiolydd Awdurdodau Esgobaethol â'r hawl i bleidlais

Ms A Jones, Cynrychiolydd UNITE

Mr J Fish, Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr wedi'i ethol

Mr M Cleverley, Cynrychiolydd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr
Athrawesau a'r Panel Athrawon

Mr C Jones, Cynrychiolydd GMB

Mr D Price, Cynrychiolydd UNSAIN/UNISON

Mrs C Jones, Cynrychiolydd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon a'r Panel Athrawon

Mrs R Nicholls, Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr wedi'i ethol

Mr L Patterson, Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr wedi'i ethol

Mr G Davies – Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio